

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

cyswllt FFERMIO



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Cyhoeddi 18 o
Safleoedd Arddangos
newydd

Ffermwr yn darganfod
bod meithrin cloron y
moch yn addas iawn i
hinsawdd Cymru



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIFYN 23 - Medi/Hydrref 2019 | www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Pam y dylai cofrestru gyda Cyswllt Ffermio fod yn fater teuluol!



A ydych yn cael golwg ar y cyhoeddiad yma am eich bod am gael y wybodaeth ddiweddaraf am arfer gorau a chael gwybod sut y mae ffermwyr eraill yng Nghymru yn dod o hyd i ffyrdd i weithio yn fwy effeithlon neu broffidiol? Gobeithiwn y byddwch yn gweld y darllen yn ddifyr, oherwydd mae hefyd yn ffordd wych i ni ddweud wrthyfch am unrhyw wasanaethau newydd, prosiectau arbennig, cyfleoedd hyfforddi a digwyddiadau yr ydym yn eu cynllunio.

Mae'n debygol iawn mai dim ond prif bartner eich busnes fferm sy'n derbyn ei gopi o'r cyhoeddiad hwn, oherwydd mai ef neu hi yw'r unig unigolyn yn eich busnes sydd wedi cofrestru yn bersonol gyda ni. Mae hyn yn golygu hefyd mai dim ond un aelod o'ch busnes sy'n gymwys i dderbyn cefnogaeth Cyswllt Ffermio.

Mae'n bryd i chi newid hynny! Rydym am sicrhau bod pob aelod o'ch teulu neu fusnes, sydd dros 16 oed, yn cofrestru hefyd. Os ydych yn cymryd rhan yn y busnes, yna mae gennym gefnogaeth, cyfarwyddyd, gwybodaeth a llawer mwy i'ch helpu chi a'r busnes yr ydych yn rhan ohono. Ar ôl i chi gofrestru byddwch yn gymwys yn bersonol i dderbyn yr amrywiaeth eang o gyfarwyddyd, cefnogaeth a hyfforddiant arbenigol sydd ar

gael trwy Cyswllt Ffermio. Mae llawer o'r gwasanaethau yn cael eu hariannu yn llawn, ac mae eraill yn cael cymhorthdal o 80%.

Mae cofrestru yn broses gyflym a hawdd. Gallwch ffonio Canolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio i gofrestru dros y ffôn: 08456 000 813, ewch i

www.llyw.cymru/cyswlltffermio i gofrestru ar-lein, neu siaradwch yn uniongyrchol â'ch swyddog datblygu lleol. Fe welwch eu manylion cyswllt ar ein gwefan. Chi sydd i benderfynu beth gewch chi yn ôl, faint o ymroddiad y byddwch chi'n ei roi a'r math o gefnogaeth y byddwch yn penderfynu fyddai o fwyaf o fudd i chi.

Rydym ni yn Cyswllt Ffermio yn canolbwyntio ar helpu busnesau i baratoi ar gyfer y sialensiau a'r cyfleoedd y gall y dyfodol eu dwyn. Os byddwn yn gadael yr UE gyda chytundeb neu heb un, mae angen i bob aelod o'r busnes gyfrannu at yr amcan cyffredinol o wneud y busnes yn addas at y dyfodol - sut bynnag y bydd hynny'n edrych! Gyda'n cefnogaeth ni, bydd pob aelod o'ch busnes yn gweithio tua'r un nod!

Cysylltwch heddiw; byddwch yn rhan o lwyddiant eich fferm deuluol!

ARLOES AC ARALLGYFERIO

CYMRU

26/09/2019

Dewch i wrando ar The Black Farmer a llawer o unigolion ysbrydoledig o Gymru yn trafod ac arddangos Arloesedd ac Arallgyfeirio o fewn busnesau

Mae arloesi ac arallgyfeirio yn prysur ddod yn eiriau allweddol i lawer o ffermwyr a choedwigwyr mwyaf blaengar y Deyrnas Unedig.

Bydd digwyddiad Arloesi ac Arallgyfeirio Cymru Cyswllt Ffermio ar 26/09/2019 yn rhoi cyfle unigryw i'ch cyflwyno i arbenigwyr fel ein prif siaradwyr sef Wlified Emmanuel-Jones, a elwir hefyd yn The Black Farmer, a Hannah Jackson, a elwir yn the Red Shepherdess.

Bydd cyfle hefyd i gwrdd ag unigolion deinamig o Gymru sydd â'r hyder i archwilio syniadau newydd, y weledigaeth i'w gwireddu a'r gallu busnes i sefydlu mentrau arallgyfeirio neu newydd llwyddiannus.

Bydd Llion Pughe, mab ffermwr o Gemaes, ger Machynlleth, a sefydlodd Best of Wales gyda'i gyd-gyfarwyddwr yn 2009, yn bresennol, yn ogystal â Kate Morel o Morel & Co, sy'n gweithio gyda busnesau gwledig sy'n gweithredu, neu eisiau arallgyfeirio i ddatblygiadau sy'n cynnwys modelau busnes lletygarwch unigryw ac amgen, yn enwedig llety. Bydd Catherine Price hefyd yn bresennol; mae hi a'i theulu yn gweithredu fferm system gymysg sy'n cynnwys defaid pedigree, buches laeth a 64,000 o ieir dodwy rhydd. Bydd yr holl unigolion, y 30 o siaradwyr profiadol a'r 100 o arddangoswyr sydd gennym yn gwbl fodlon rhannu eu gwybodaeth a'u profiad personol o ddefnyddio arloesedd a thechnolegau gorau a newydd sydd ar gael o fewn ein diwydiant.

Rydym wedi creu rhaglen lawn o gyflwyniadau a seminarau, mewn diwrnod sy'n cynnig llwyfan rwydweithio unigryw i arloeswyr, dyfeiswyr, gweithgynhyrchwyr, darparwyr gwasanaethau a chynnyrch yfory y byd amaethyddol.

Ein gobaith yw y byddwch chithau hefyd yn cael eich ysbrydoli i ychwanegu gwerth at eich busnes, i gael gwybod pwy all eich helpu i droi eich breuddwydion yn ffaith a gwireddu eich uchelgais fel entrepreneur.

Os yw hyn yn swnio o ddiddordeb i chi, cadwch y dyddiad yn glir, 26/09/19, rhwng 10:00 a 16:00 yn Neuadd De Morgannwg, Maes y Sioe Frenhinol, a dewch i weld beth sydd gennym i'ch helpu i gael syniadau a gwybodaeth.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â: fcevents@menterabusnes.co.uk neu ewch ar wefan Cyswllt Ffermio.



The Black Farmer

Red Shepherdess




Cyhoeddi 18 o Safleoedd Arddangos newydd

Mae Cyswllt Ffermio wedi cyhoeddi rhwydwaith newydd o 18 o Safleoedd Arddangos i arwain gwelliannau ac i gynyddu cynhyrchiant ar draws ystod o systemau ffermio gwahanol, sy'n allweddol er mwyn helpu pob ffermwr yng Nghymru i wella a datblygu, drwy ddiwrnodau agored, digwyddiadau technegol a chyhoeddiadau i gyfathrebu canlyniadau prosiectau ac arbrofion.

Dros y tair blynedd nesaf, bydd y ffermydd yma'n cymryd rhan mewn gweithgareddau i wella cynhyrchiant ar y ffermydd, gan ddefnyddio technegau newydd a monitro perfformiad.

Mae hwn yn Rhifyn Arbennig o Gyhoeddiad Technegol Cyswllt Ffermio, i rannu mwy o wybodaeth am y safleoedd newydd a'r ffermwyr arddangos a fydd yn cymryd rhan mewn prosiectau ac astudiaethau dros y blynyddoedd nesaf.

1. ERW FAWR, Caergybi
2. MOELOGAN FAWR, Llanrwst
3. PENTRE FARM, Rhuthun
4. HALGHTON HALL, Wrecsam
5. WERN, Y Trallwng
6. CEFNGWILGY FAWR, Llanidloes
7. DOLYGARN, Llandrindod
8. CEFN LLAN, Llangammarch
9. GRAIG OLWAY, Brynbuga
10. HENDRE IFAN GOCH, Pen-y-bont ar Ogwr
11. GLANMYNYS, Llanymddyfri
12. NANTGLAS, Caerfyrddin
13. MOUNTJOY, Hwlfordd
14. PANTYDERI, Boncath
15. BRYN, Aberteifi
16. PENDRE, Aberystwyth
17. FFERM RHIWAEDOG, Y Bala
18. BODWI, Pwllheli



DAVID LEWIS
Halghton Hall, Wreccsam

Mae Halghton Hall yn fferm tir glas 121-hectar (ha) sy'n cynnal diadell o 800 o famogiaid sy'n wyna o dan do.

Mae'r fferm yn cael ei rhedeg gan David Lewis, y drydedd genhedlaeth o'i deulu i ffermio Halghton Hall.

Mae'r ddiadell yn cael ei pharu â hyrddod Innovis yn gynnar ym mis Medi. Mae'r wŷn benyw yn cael eu troi at yr hwrdd fis wedyn ac yn wyna ym mis Mawrth. Mae'r brif ddiadell yn sganio 190% ar gyfartaledd, gan werthu 1.75 o wŷn i bob mamog, ar gyfartaledd. Mae'r wŷn benyw yn magu un oen cyn cael eu hintegreiddio i'r ddiadell y flwyddyn wedyn. Mae'r wŷn yn cael eu gwerthu ar darged pwysau marw o 20kg o ddiwedd mis Mai. Mae pwyslais yn cael ei roi ar gynhyrchu ar borfa a meillion - mae rhyw 10% o'r fferm yn cael ei ail-hadu bob blwyddyn â rhywogaethau Aber sy'n cynnwys llawer o siwgr.

Mae gwartheg biff Charolais a Limousin yn pori yn ystod yr haf ac yn cael eu pesgi wedyn ar silwair glaswellt a dwyswyd er mwyn eu gorffen pan fyddan nhw'n 18-23 mis.

Mae contract Glastir Uwch yn Halghton Hall wedi bod yn allweddol o ran adfer gwrychoedd a chreu coridorau bywyd gwyllt.

Meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt fel ffermwr arddangos:

- Geneteg defaid
- Costau cynhyrchu
- Dal carbon



GARETH, EDWARD A KATE JONES
Cefngwilgy Fawr, Llanidloes

Mae Safle Arddangos Cefngwilgy Fawr yn ddaliad mynydd 200-hectar (ha) sy'n cael ei ffermio gan Edward a Kate Jones a thad Edward, Gareth.

Mae'r fferm yn cael ei phori gan fuches o 50 o wartheg sugno a diadell o 1,000 o ddefaid. Mae'r fferm yn codi o 700 troedfedd i 1100 o droedfeddi yn ei man uchaf.

Diadell fasnachol o famogiaid Texel croes, Aberfield croes a Miwl yw'r rhan fwyaf o'r ddiadell, a'r rheiny'n cael eu troi at hwrdd Abervale.

Mae yna 300 o famogiaid Penfrith hefyd, sy'n cael eu troi at hwrdd Aberfield, hwrdd Cymreig neu groesfrid i fridio anifeiliaid cadw; mae 200 o wŷn o'r rhain yn cael eu cadw ac mae hesbinod Miwl Cymreig yn cael eu prynu i mewn hefyd.

Mae'r ddiadell fasnachol yn wyna dan do o 1 Mawrth. Mae'r ddiadell galed o famogiaid Penfrith a Chymreig yn wyna y tu allan o 20 Mawrth ymlaen. Mae'r wŷn i gyd yn cael eu bwydo ar borthiant; bydd nifer fach yn cael dwysfwydydd ar ddiwedd y tymor i'w pesgi cyn y Nadolig.

Mae'r rhan fwyaf o'r fuches sugno yn lloia yn y gwanwyn er bod un rhan o bump o'r fuches yn lloia yn yr hydref. Defnyddir tarw Limousin ar y buchod Limousin croes a'r buchod British Blue croes.

Nod y busnes yw gwerthu'r epil fel gwartheg stôr cyn eu bod yn 12 mis oed.

Arallgyfeirio

Mae bwyler biomas 60kW yn rhoi gwres i'r ffermdy a'r gweithdy ac mae yna system ynni haul 4kW hefyd.

Meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt fel ffermwr arddangos:

- Sicrhau gwell dealltwriaeth o'n priddoedd a'n silwair
- Cofnodi perfformiad
- Ystyried gwerth tail ieir fel gwrtaith



LLION A SIAN JONES

Moelogan Fawr, Llanrwst

Mae Moelogan Fawr yn ddaliad mynydd 304 hectar (ha) sy'n cael ei ffermio gan Llion a Sian Jones.

Roedd y cwpl wedi bod yn ffermwyr tenant ar un o ffermydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol cyn dychwelyd i'r fferm sydd wedi bod yn nheulu Sian ers tair cenhedlaeth.

Mae Moelogan Fawr yn codi o 1,000 i 1,500 troedfedd ac mae'n cynnal buches biff o 100 o fuchod sugno a 36 o heffrod a diadell o 1,200 o ddefaid.

Cymysgedd o famogiaid Cymreig, Cheviot a chroesiadau yw'r ddiadell. Mae'r mwyafrif o'r defaid croes yn wyna dan do ond eleni fe gafodd 120 eu trin â sbwng i ddod â'u hŵyn ym mis Ionawr; drwy wneud hynny roedd yn bosibl gwerthu'r mamogiaid gyda'u hŵyn wrth eu traed er mwyn helpu'r llif arian ar adeg dawel o'r flwyddyn.

Mae'r mamogiaid Cymreig a'r Cheviots yn wyna yn yr awyr agored o fis Ebrill ymlaen.

Mae'r ŵyn i gyd yn cael eu pesgi ar laswellt; i leihau faint o fwyd sy'n cael ei brynu, mae cymysgedd llysieuol wedi'i blannu er mwyn pesgi'r ŵyn. Mae 5.7 hectar o swêj yn cael eu tyfu i fwydo'r mamogiaid 4-6 wythnos cyn wyna.

Mae 10ha o goed wedi'u plannu drwy gyfrwng cynllun Creu Coetir Glastir.

Meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt fel ffermwr arddangos:

- Cofnodi perfformiad defaid
- Gwerthuso opsiynau ar gyfer gwahanol systemau biff
- Ystyried dulliau o dynhau'r cyfnodau lloia ac ŵyna
- Ystyried gwerth dognau cymysg cyflawn (TMR) yn y system biff a defaid.



HUGH JONES

Pentre Farm, Rhuthun

Daliad mynydd o 49 hectar (ha) yw Safle Arddangos Fferm Pentre. Mae'n cael ei ffermio gan Hugh Jones a'i fam, Glenys. Maen nhw'n rhentu 28ha arall.

Mae hyd at 35 o loi tarw Hereford ac Aberdeen Angus y flwyddyn yn cael eu prynu ar ocsiwn yn yr Wyddgrug a Rhuthun a chan werthwyr preifat rhwng 4-8 wythnos oed.

Mae'r gwartheg yn cael eu cadw nes eu gorffen.

Defaid pedigri Lleyrn yw'r rhan fwyaf o'r ddiadell gaeedig o 350 o famogiaid, ond mae'n cynnwys 70 o ddefaid Suffolk x Lleyrn.

Hyrddod Lleyrn pur sy'n cael eu defnyddio ar un rhan o dair o'r ddiadell Lleyrn i fridio anifeiliaid cyfnewid. Mae'r mamogiaid eraill yn cael eu paru â hyrddod Suffolk a fridiwyd yn Seland Newydd sydd yn newid cyfeiriad mawr i'r teulu gan eu bod nhw wedi bod yn fridwyr brwdfrydig ar ddefaid Suffolk masnachol ers dros 30 mlynedd. Mae'r tripledi yn cael eu geni dan do ond eleni, oherwydd y tywydd mwyn, cafodd yr efeiliaid a'r ŵyn sengl eu geni y tu allan o 24 Mawrth ymlaen.

Mae'r ŵyn i gyd yn cael eu bwydo ar laswellt. Dim ond y rhai sy'n pesgi yn hwyr yn yr hydref sy'n cael dwysfwd.

Mae'r ŵyn yn cael eu gwerthu ym marchnad da byw'r Wyddgrug, fel arfer yn 40kg, o ddiwedd mis Mai ymlaen pan fydd yr ŵyn cyntaf yn 12-13 wythnos oed.

Yn 2013, cafodd 3.74ha o goetir pren caled brodorol ei blannu drwy'r Cynllun Creu Coetir. Mae'r tir hwn yn serth a rhywfaint ohono'n wlyb felly roedd yn agored i lefelau uchel o lyngyr yr iau ac yn risg fawr i iechyd y defaid.

Meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt fel ffermwr arddangos:

- Gwella ansawdd y borfa drwy bori mewn cylchdro
- Ystyried ffrydiau incwm o goetir
- Ymchwilio i gyfleoedd i fanteisio ar ddal carbon



JAMES POWELL

Dolygarn, Llandrindod

Mae safle Arddangos Dolygarn yn fferm fynydd 182 hectar (ha) sy'n cael ei ffermio gan James Powell a'i dad a'i ewythr, Matthew a Tudor.

Bu tad-cu James yn ffermio Dolygarn fel tenant ac fe brynodd y teulu'r fferm yn nes ymlaen.

Mae'r fferm tir glas yn codi o 1,000 i 1,500 troedfedd ac mae ganddi bridd lôm silt uwchben clai.

Mae'r busnes yn cynhyrchu cig oen o ddiadell o 1,000, sef mamogiaid Aberfield yn bennaf, a chig eidion o fuches o 30 o fuchod sugno.

Mae'r ddiadell hefyd yn cynnwys rhai mamogiaid Cymreig.

Mae defaid Aberfield pur yn cael eu paru â hyrddod Aberblack i ychwanegu hyd a rhagor o gyhyr at gryfder a chyhyrau'r Aberfield.

Mae'r hyrddod yn cael eu gosod i mewn gyda'r mamogiaid ar 15 Tachwedd ac mae'r wyna'n dechrau ar 10 Ebrill am gyfnod o bedair wythnos.

Mae'r ddiadell yn dod o dan do am dri mis o 7 Ionawr ymlaen, er mwyn i'r caeau gael gorffwys ac mae'n cael ei throi allan eto bythefnos cyn wyna. Mae tri chant o famogiaid yn treulio'r gaeaf i ffwrdd ar dac.

Saler ac Aberdeen Angus yw'r bridiau yn y fuches sugno.

Mae 10ha o goed wedi'u plannu drwy raglen Creu Coetir Glastir.

Arallgyfeirio

Mae uned 'gwely a brecwast' ar gyfer moch yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd.

Mae bwthyn yn cael ei osod dros y gwyliau.

Mae bwyler biomas yn darparu gwres ar gyfer tri eiddo ar y fferm.

Meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt fel ffermwr arddangos:

- Iechyd y pridd: Y nod yw pesgi popeth ar laswellt ond priddoedd trwm yw'r ffactor sy'n ein cyfyngu ni
- Ystyried ffyrdd i leihau'r mewnbynnau trwy dyfu rhywogaethau amrywiol
- Ymchwilio sut allwn fanteisio i'r eithaf ar y glaswellt



NEIL DAVIES

Cefn Llan, Llangammarch

Fferm bîff a defaid 105-hectar (ha) yw Cefn Llan. Mae'n cael ei rhedeg gan Neil Davies a'i deulu; maen nhw'n rhentu 93ha arall ac mae ganddyn nhw hawliau pori ar Fynydd Epynt. Defaid Penfrith Caled Epynt yw'r ddiadell o 2,400 o famogiaid, sef brid gwydn sy'n gallu byw ar y mynydd 12 mis o'r flwyddyn.

Yn y ddwy flynedd gyntaf, mae'r mamogiaid yn cael eu troi at hwrdd Penfrith Caled Epynt er mwyn ateb gofynion blynyddol y ddiadell o sicrhau 600 o famogiaid newydd y flwyddyn.

Am y tair blynedd wedyn, hwrdd Texel sy'n cael ei ddefnyddio gyda'r mamogiaid a hynny er mwyn cynhyrchu wŷn mwy; y nod yw cyrraedd targed pwysau gwerthu o 42kg. Gan mai brid mynydd yw'r mamogiaid, mae ganddyn nhw gyfartaledd sganio o 120%.

Mae dwysfwd yn cael ei fwydo i'r mamogiaid sy'n magu wŷn Texel yn y gwanwyn; eleni costiodd hyn £8 y pen. Mae'r holl wŷn Texel yn cael eu bwydo â dwysfwd, ar gost eleni o £6 y pen. Mae'r mamogiaid hŷn yn wyna ar ddiwedd Ionawr ac mae'r holl wŷn o'r rhain erbyn hyn yn cael eu gwerthu erbyn diwedd Mai; mae'r mamogiaid i'w difa yn cael eu gwerthu bryd hynny hefyd.

Mae 32 hectar o gnydau gwraidd yn cael eu tyfu bob blwyddyn i ddarparu porthiant gaeaf.

Mae'r fferm wedi dechrau ar raglen ailhadu helaeth - bydd 20 hectar yn cael ei ailhadu bob blwyddyn; mae'r gwndwn newydd yn gynhyrchiol iawn yn y gwanwyn pan fydd angen i'r busnes wneud y mwyaf o'r glaswellt sydd ganddo.

Mae 60 o fuchod sugno Belgian Blue croes yn cael eu troi at darw Limousin ac mae'r lloeau'n cael eu geni yn y gwanwyn; mae'r epil yn cael eu gwerthu fel gwartheg stôr.

Meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt fel ffermwr arddangos:

- Ymchwilio i ffyrdd o wella ar ein system bori cylchdro ac i leihau costau
- Cynyddu'r allbwn fesul hectar er mwyn adennill y buddsoddiad mewn ailhadu
- Cynhyrchu mwy o gilogramau o gig eidion yr hectar ar system costau isel
- Ystyried gwahanol dechnegau ailhadu heblaw am aredig



RUSSELL A RHYS EDWARDS

Hendre Ifan Goch, Pen-y-bont ar Ogwr

Mae Hendre Ifan Goch yn fferm fynydd 91 hectar (ha) mewn Ardal dan Anfantaï Fawr yng Nghymoedd De Cymru, sy'n cael ei rhedeg gan Russell a Rhys Edwards.

Mae'r fferm, sy'n codi o 600 i 1,300 troedfedd, yn cynnal 400 o famogiaid miwl Aberfield, 200 o famogiaid miwl Cymreig a 130 o ŵyn benyw.

Mae perfformiad y ddiadell yn cael ei gofnodi ac mae penderfyniadau difa'n cael eu gwneud yn seiliedig ar y data hwn.

Mae system bori cylchdro ar ffurf padogau wedi cael ei greu er mwyn pori'r ddiadell.

Mae 40 hectar o silwair yn cael ei gynaeafu ym mis Mehefin.

Mae'r ddiadell yn cael ei chadw dan do ar gyfer ŵyna rhwng 5 Mawrth ac yn derbyn dogn cymysg cyflawn (TMR).

Mae'r ŵyn yn cael eu diddyfnu yn 12 wythnos oed ac yn cael eu gwerthu ar y bachyn i Dunbia neu Kepak.

Arallgyfeirio

Mae generadur hydro 5.5kW yn cynhyrchu 27,000 kilowat awr (kWh) y flwyddyn ar gyfartaledd.

Yn 2000, creodd y teulu barc fferm a safle pysgota brithyll; mae'r safle'n cael ei rentu fel lleoliad llwyddiannus ar gyfer priodasau a digwyddiadau.

Sefydlwyd parc carafanau a gweryslla yn 2013.

Meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt fel ffermwr arddangos:

- Iechyd defaid
- Ôl troed carbon: Rydym ni eisoes wedi integreiddio ynni adnewyddadwy i'r busnes a byddem yn dymuno edrych ar ffyrdd o wella ein hôl troed carbon ymhellach
- Gwasarn amgen: Gyda'r bwriad o wella iechyd y ddiadell, byddem ni'n awyddus i dreialu gwahanol fathau o wasarn
- Defnyddio technolegau newydd i wella iechyd y ddiadell trwy gasglu a dadansoddi data ar gyfraddau twf, tymheredd yr anifeiliaid a chymeriant dŵr



CARINE KIDD A PEREDUR OWEN

Glanmynys, Llanymddyfri

Daliad bîff a defaid o 202 hectar (ha) yw Safle Arddangos Glanmynys ac mae'n cael ei ffermio gan berchennog y fferm, Carine Kidd, a'i phartner ffermio cyfran, Peredur Owen.

Mae'r fferm yn cynnal diadell o 700 o famogiaid Cymreig x Aberfield, ac mae'r mwyafrif yn ŵyna y tu allan rhwng 1 Ebrill a 1 Mai.

Ar hyn o bryd, mae'r ŵyn yn cael eu gwerthu i Dunbia.

Mae buches o 25 o wartheg sugno, sef croesiadau Simmental yn bennaf, yn lloia yn y gwanwyn a'r hydref, ond bydd y niferoedd yn cael eu lleihau'r haf hwn er mwyn cynyddu'r mentrau defaid a gwartheg.

Mae'r lloï'n cael eu gwerthu'n uniongyrchol oddi ar y fferm neu mewn marchnadoedd da byw.

Mae'r busnes yn magu 40 o loi blwydd Aberdeen Angus.

Mewn menter newydd, daeth 40 o loi Aberdeen Angus 5 mis oed i'r fferm ym mis Mehefin. Bydd y rhain yn cael eu magu am 12 mis ac yna eu gwerthu i gadwyn gyflenwi Select Livestock a Dovecote Park.

Meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt fel ffermwr arddangos:

- Cynyddu'r enillion yn y pwysau byw gymaint â phosibl ar borthiant
- Ystyried pa ddulliau sydd fwyaf effeithiol ar gyfer cywiro'r diffyg elfennau hybrin yn ein pridd ni
- Defnyddio EID i fonitro perfformiad y gwartheg er mwyn symleiddio'n system a lleihau amserau ymateb i unrhyw broblemau mewn perfformiad ac iechyd
- Ymchwilio i werth tyfu cnydau porthiant fel cnydau toriad ac ystyried pa rai sy'n perfformio orau o ran y cynnyrch ac o ran perfformiad y gwartheg a'r ŵyn



WYN AC EURIG JONES

Pantyderi, Boncath

Mae Pantyderi yn ddaliad bîff, defaid a thir â sy'n cael ei redeg gan dad a mab, Wyn ac Eurig Jones. Mae'r busnes yn ffermio 445 hectar ar draws dwy uned a thir oddi ar y fferm.

Mae gan y fenter bîff 80 o fuchod sugno Hereford croes sy'n lloia yn y gwanwyn ac sy'n cael eu paru â tharw Limousin.

Mae'r holl epil yn cael eu pesgi ar ddogyn sy'n cynnwys barlys cartref wedi'i grimpio a silwair ac yn cael eu gwerthu'n uniongyrchol i'w lladd yn 18-24 mis.

Mae gwartheg stôr yn cael eu prynu hefyd i'w pesgi, a hynny o farchnadoedd da byw a gwerthwyr preifat yn lleol.

Mae rhyw 200 o wartheg yn cael eu pesgi bob blwyddyn.

Mae'r ddiadell yn cynnwys 1,500 o famogiaid Texel-croes sy'n cael eu troi at hyrddod Texel, Abermax, Aberfield a Charollais.

Cyfartaledd sganio'r ddiadell yn ystod y tymor eleni oedd 160%.

Mae'r mamogiaid sy'n dod â thriplesi a gefeilliaid yn wyna o dan do o 10 Mawrth ymlaen ac mae'r unigolion yn wyna tu allan, hefyd o 10 Mawrth ymlaen.

Mae'r rhan fwyaf o'r wryn yn cael eu pesgi ar borfa gydag ychydig bach o ddwysfwyd yn cael ei roi ychydig cyn eu gorffen.

Mae'r rhan fwyaf o'r carcasau'n sicrhau graddau U ac R.

Mae'r busnes yn tyfu 44.5 hectar o farlys gwanwyn a 16 hectar o farlys gaeaf a gwenith gaeaf.

Arallgyfeirio

Mae incwm ychwanegol yn dod o lety gwyliau a dwy system ynni haul 50kW.

Meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt fel ffermwr arddangos:

- Defnyddio EID i gofnodi perfformiad y gwartheg a'r defaid: Mae gwybodaeth am y pwysau byw sy'n cael eu hennill yn cael ei chofnodi eisoes ar gell bwyso, ond y cam nesaf fydd integreiddio'r wybodaeth yma gyda meddalwedd i helpu i lywio'r penderfyniadau ynghylch bridio a phrynu
- Manteisio i'r eithaf ar rannau o'r fferm sydd heb gael eu defnyddio'n ddigonol, at ddibenion yr amgylchedd: Nid yw'r ardaloedd salaf ar y fferm yn cael eu defnyddio'n ddigon da felly hoffem fanteisio ar gynlluniau amgylcheddol i gynyddu gwerth y rhain i'r busnes.



HUW A MEINIR JONES

Bryn, Ferwig, Aberteifi

Mae Fferm Arddangos Bryn yn ddaliad 101 hectar (ha) sy'n gweithio fel fferm bîff. Mae'r ffermwr pedwaredd genhedlaeth, Huw Jones a'i wraig Meinir, hefyd yn tyfu 24ha o wenith, ceirch a barlys yn borthiant i'r fuches.

Lôm tywodlyd ysgafn yw pridd fferm Bryn.

Mae'r fferm yn codi i 400 troedfedd, ac mae'r caeau uchaf yn edrych dros aber yn afon yn Aberteifi.

Mae 75 o fuchod sugno, sef Salers yn bennaf, yn lloia mewn bloc deg wythnos gan ddechrau ar 1 Chwefror. Tarw Charolais sydd â ffigurau bridio rhagorol yw'r prif darw stoc; ac mae tarw Henffordd yn cael ei ddefnyddio i gael heffrod cadw.

Mae'r gwartheg yn cael eu gwerthu fel gwartheg stôr mewn marchnadoedd da byw.

Mae'r fuches yn cael ei rhedeg ar system pori padogau.

Mae'r fferm yn plannu rêp, maip neu gël ar ôl cnydau grawn i'w pori fel cnydau porthiant gaeaf.

Siediau agored yw'r adeiladau gaeaf i gyd.

Mae'r fferm yn cynhyrchu gwair a gwellt ar gyfer y diwydiant anifeiliaid anwes.

Mae'r gwair yn cael ei dyfu o gymysgedd hadau arbenigol ac mae'r caeau hyn yn cael eu defnyddio wedyn fel porfeydd gohiriedig i fuchod sych.

Mae'r silwair i gyd yn cael ei droi'n fynau mawr, ac mae rhyw 350 o fynau y flwyddyn yn cael eu cynhyrchu, ynghyd â rhywfaint o fynau gwair.

Meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt fel ffermwr arddangos:

- Cynyddu'r enillion pwysau byw ar borfa i'r eithaf
- Er mwyn cael y gorau o botensial y borfa, rydym ni yn y flwyddyn gyntaf o bori'r fuches bîff fesul padog. Mae hon yn system y dysgais amdani ar gwrs Meistr ar Borfa Cyswllt Ffermio y llynedd ac rwy'n awyddus i wella'r wybodaeth sydd gen i hyd yn hyn.
- Rheoli clefyd Johne: Mae clefyd Johne yn fygythiad i systemau bîff sugno ac felly mae diogelu iechyd y fuches rhag y clefyd yma a chlefydau eraill yn flaenoriaeth inni.
- Gwella iechyd y pridd: Mae popeth rydyn ni'n ei wneud yn dibynnu ar bridd ffrwythlon ac felly rydyn ni'n awyddus i ddysgu sut i wella statws cemegol a ffisegol y pridd ymhellach.



Pendre, Llanfihangel y Creuddyn

Dechreuodd Tom ffermio gyda'i rieni ar fferm y teulu ym Mrynperfffaith, Pontarfynach, yn 2005.

Prynodd y teulu fferm Pendre yn 2000 a chymerodd Tom yr awenau yn 2010.

Mae gan y fferm fynydd 24 hectar (ha) o dir ac mae'n rhentu 6 l ha arall.

Mae Tom yn gweithio oddi ar y fferm i WLBP (Welsh Lamb and Beef Producers) dri diwrnod yr wythnos.

Mae'r ddiadell gaeedig o 480 o famogiaid yn gymysgedd o famogiaid Miwl wedi'u croesi, mamogiaid Cymreig Tregaron wedi'u gwella a mamogiaid Penfrith Cymreig.

Hyreddod Beltex x Charollais sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y mamogiaid croes a hyreddod Cymreig a Wyneblas Caerlŷr gyda gweddill y ddiadell.

Bydd 100 o ŵyn benyw croes yn cael eu troi at yr hwrdd bob blwyddyn.

Mae'r defaid croes yn sganio ar 180% ar gyfartaledd ac mae'r defaid Cymreig Tregaron a'r defaid Cymreig Penfrith yn sganio ar 160%.

Mae'r mamogiaid i gyd yn âwyna o dan do, rhwng 20 Chwefror a 20 Mawrth. Mae âwyn y ddiadell groes yn cael eu gwerthu i'r farchnad pwysau byw ym mis Mai ac mae'r wyn sy'n cael eu geni'n ddiweddarach yn mynd i Dunbia.

Mae 40 o hyrddod bridio'n cael eu gwerthu bob blwyddyn.

Meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt fel ffermwr arddangos:

- Defnyddio'r borfa i'r eithaf: Drwy raglen Cyswllt Ffermio rydyn ni wedi samplu'r pridd ym mhob cae ac maen nhw i gyd ar eu gorau rhwng 6 a 6.5 pH. Rydym ni'n gwybod bod modd tyfu glaswellt ond mae yna fwy y gallem ni ei wneud i ddefnyddio beth sy'n cael ei dyfu
- Gwella gallu'r wŷn i oroesi yn y deng niwrnod cyntaf ar ôl cael eu geni



Fferm Rhiwaedog, Y Bala

Mae Fferm Rhiwaedog yn fferm fynydd o 142 hectar (ha) ac mae'n gweithio fel fferm bîff a defaid.

Aled a Dylan yw'r bedwaredd genhedlaeth o deulu'r Jonesiaid sydd wedi bod yn ffermio ar y daliad, sy'n 1,000 o droedfeddi o uchder yn ei man uchaf.

Mae'r teulu'n rhentu 121 ha arall ar ddaliad cyfagos, ar dir sy'n codi i 1,400 o droedfeddi. Mae'r fuches bïff yn cynnwys 70 o fuchod sugno Duon Cymreig sy'n cael eu troi at darw stoc Charolais neu darw stoc Du Cymreig; o ran yr heffrod, tarw Saler sy'n cael ei ddefnyddio.

Mae epil y fuches yn cael eu gwerthu fel gwartheg stôr yn 18 mis oed mewn marchnadoedd da byw. Mae'r ddiadell o 1,500 o famogiaid yn cael ei rhannu'n dri grŵp: Texel x Miwl ac Aberfields, Cheviot x mamogiaid Cymreig a mamogiaid Cymreig. Mae'r Texel x Miwl ac Aberfields yn cael eu troi at hwrdd Texel, mae'r mamogiaid Cheviot x Cymreig yn cael eu toi at hwrdd Aberfield a Wyneblas Caerlŷr ac mae'r mamogiaid Cymreig yn cael eu troi at Cheviot.

Mae canran sganio'r Texel x Miwl ac Aberfields yn 180% ar gyfartaledd. I 70% yw'r Cheviot x mamogiaid Cymreig a 150% yw'r mamogiaid Cymreig.

Mae canran fagu o 1.5 i bob mamog yn cael ei sicrhau ar draws y ddiadell gyfan.

Mae'r rhan fwyaf o'r defaid croes yn ŵyna o dan do o ddiwedd mis Chwefror ymlaen a bydd y mamogiaid Cymreig yn ŵyna yn yr awyr agored ym mis Ebrill.

Mae 80% o'r ŵyn yn cael eu gwerthu drwy'r fasnach fyw.

Un toriad silwair sy'n cael ei wneud, sef 56ha ar ddiwedd mis Mehefin, ac ail doriad mewn rhai o'r caeau. Mae'r silwair i gyd yn cael ei droi'n fynau mawr.

Arallgyfeirio

Mae incwm ychwanegol yn dod i mewn drwy fwthyn gwyliau hunanarlwyo

Mae bwyler biomas yn creu gwres i dair annedd ar y fferm

Meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt fel ffermwr arddangos:



- Cymharu technegau gwahanol at besgi ŵyn, fel eu pesgi ar dir wedi'i ail-hadu neu ar faip soffl
- Ymchwilio i weld sut fedrwn ni leihau costau porthiant gaeaf yn y fenter wartheg, drwy dyfu silwair cnwd cyfan a silwair sy'n llawn protein
- Dibynnu'n llai ar brynu porthiant i mewn, drwy wneud gwell defnydd ar y tir glas

EDWARD, JACKIE AC ELLIS GRIFFITH

Bodwi, Pwllheli

Mae Safle Arddangos Bodwi yn fferm ddefaid a bîff ar lawr gwlad sydd wedi bod yn cael ei rhedeg gan y teulu Griffith ers pedair cenhedlaeth.

Mae Edward a Jackie Griffith yn ffermio gyda rhieni Edward, sef William a Helen. Mae eu mab, Ellis, wedi ymuno â'r busnes erbyn hyn.

Mae'r teulu'n ffermio cyfanswm o 247 hectar (ha) sy'n cynnwys 113 ha o dir ar rent ar ddaliad 18 milltir i ffwrdd o Fferm Bodwi.

Mae priddoedd Bodwi yn lôm canolig ffrwythlon. Mae'r tir yn dir glas i gyd heblaw am 6.9ha o geirch a dyfir fel rhan o gytundeb Glastir Uwch.

Mae'r fferm yn cadw buches o 160 o wartheg sugno Stabiliser ar y fferm, ynghyd â diadell o 1,150 o famogiaid Suffolk croes.

Mae'r fuches yn lloia mewn bloc naw wythnos o 7 Ebrill, gyda'r 80% cyntaf yn lloia o fewn y tair wythnos gyntaf. Mae'r uned bîff wedi bod yn rhedeg fel buches gaeedig ers 20 mlynedd. Defnyddir techneg trosglwyddo embryonau i sicrhau'r gwelliannau geneteg gorau posibl. Mae'r lloia gwryw'n cael eu magu ar gyfer bîff, rhai ar fferm Bodwi ac eraill ar uned besgi yn Selby. Y targed ar gyfer pesgi yw 12-14 mis gyda gwartheg yn cael eu gwerthu'n uniongyrchol i'r lladd-dy.

Mae rhai o'r anifeiliaid gwryw'n cael eu gwerthu fel teirw magu yn 12-14 mis oed.

Mae heffrod yn cael eu magu ar laswellt a silwair ar ôl diddyfnu. Mae cyfran yn cael eu cadw fel anifeiliaid cyfnewid ac eraill yn cael eu gwerthu fel heffrod magu. Mae unrhyw anifeiliaid nad ydynt yn cyrraedd y safon ar gyfer magu'n cael eu pesgi ar y fferm.

Mae perfformiad yr holl wartheg yn cael ei gofnodi.

Mae'r mamogiaid yn cael eu troi at hyrddod Abermax neu Texel, gan sicrhau cyfartaledd sganio o 180%. Mae'r ddiadell yn wyna dan do ym mis Chwefror. Mae wryn yn derbyn dwysfwd ar y borfa ym mis Ebrill a Mai er mwyn gwerthu popeth erbyn diwedd Awst.

Mae'r holl wryn yn cael eu gwerthu ar y bachyn.

Mae'r teulu hefyd yn cadw diadell o 280 o wryn benyw cyfnewid, wedi'u prynu'n bennaf o'r Alban.

Arallgyfeirio

Mae ynni'n cael ei gynhyrchu o dyrbin gwynt 10kW

Mae incwm ychwanegol yn cael ei greu o safle bychan ar gyfer carafanau, yn ogystal â phedwar bwthyn gwyliau

Meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt fel ffermwr arddangos:

- Cymharu proffidioldeb gwahanol systemau pesgi bîff
- Byddem yn awyddus i archwilio manteision pori celloedd er mwyn cynyddu cynhyrchiant mewn modd cynaliadwy, gan leihau ein costau ar yr un pryd



OSIAN WILLIAMS

Wern, Y Trallwng

Mae Fferm Wern yn ddaliad cymysg 486 hectar (ha) sy'n cael ei ffermio gan Osian Williams a'i rieni, Dafydd ac Eleri, a'i bartner, Nikki.

Osian yw'r bedwaredd genhedlaeth o'r teulu Williams i ffermio ar fferm WeRn, fferm ucheldir sy'n ymestyn o 700 i 1,400 troedfedd.

Mae'r fferm yn arbenigo mewn bîff, wryn ac ieir maes.

Sefydlwyd y fenter ddofednod yn 2011. Mae'r uned yn cadw 32,000 o ieir Bovan Brown ar system offer aml-haen.

Arallgyfeirio

Mae paneli solar ar y fferm yn ogystal â phwmp gwres o'r ddaear, a thyrbîn gwynt 225kW sy'n gallu cynhyrchu 600,000kW o ynni bob blwyddyn. Mae'r busnes yn defnyddio 130,000kW o'r ynni hwnnw ac yn gwerthu'r gweddill i'r Grid Cenedlaethol.

Meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt fel ffermwr arddangos:

- Adeiladu ar y llwyddiant yr ydym wedi'i gael wrth reoli gwiddon coch mewn dofednod: Rydym ni wedi treialu cynnyrch i reoli heintiadau fel rhan o'n gwaith fel Safle Ffocws Cyswllt Ffermio ac rydym yn gobeithio adeiladu ar y gwaith ymchwil hwn fel rhan o'n gwaith fel Safle Arddangos
- Edrych ar ddulliau eraill o wella ansawdd dŵr yfed fel rhan o'n system ddofednod: Nid ydym yn brechu ein dofednod ar ôl iddynt gyrraedd y fferm, felly mae'n hanfodol ein bod ni'n gwneud popeth sy'n bosibl er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r dŵr yfed o'r ansawdd gorau er mwyn diogelu a chefnogi iechyd yr haid



CEREDIG A SARA EVANS

Erw Fawr, Caergybi

Mae Safle Arddangos Erw Fawr yn ddaliad o 192-hectar (ha) sy'n cael ei ffermio gan Ceredig a Sara Evans mewn partneriaeth â rhieni Ceredig, Ifan ac Ann.

Mae'r teulu'n cynhyrchu llaeth o fuches Holstein bedigri gynhyrchiol iawn, a honno'n cael ei rhedeg ar system lloia gydol y flwyddyn.

Cafodd buches Branwen ei sefydlu ym 1980 pan drodd y fferm o gynhyrchu biff a defaid i gynhyrchu llaeth.

Mae nifer y gwartheg wedi codi'n raddol o 120 pan ddychwelodd Ceredig i'r fferm ym 1995 i'r 300 sydd gan y fuches heddiw. Mae yna 250 o loi.

Mae semen sydd â'i ryw wedi'i bennu, ar y cyd â genomeg, wedi'u defnyddio i roi hwb i niferoedd yr heffrod ac i gynhyrchu incwm ychwanegol drwy werthu'r heffrod dros ben.

Mae tarw stoc Limousin yn cael ei ddefnyddio i'w baru â buchod sydd heb feichiogi ar ôl AI.

Mae'r fuches yn cynhyrchu 9,000 litr y flwyddyn ar gyfartaledd, gyda 4% o fraster menyn a 3.3% o brotein. Mae'r llaeth yn cael ei werthu i Arla.

Mae'r buchod yn cael TMR cywasgedig sy'n cynnwys indrawn a chnwd cyfan sydd wedi'u tyfu gartref.

Mae'r fuches yn cael ei rhedeg fel dau grŵp – y naill yn uchel ei gynhyrchiant a'r llall yn isel – pan fyddan nhw ar y borfa rhwng mis Ebrill a mis Hydref. Mae byffer yn cael ei fwydo i'r grŵp uchel ei gynhyrchiant er mwyn cadw lefel y cynhyrchiant.

Er bod yr hyn sy'n cael ei fwyta wedi'i seilio ar TMR a phorthiant wedi'i brynu, mae'r busnes yn ceisio cynyddu'r borfa sy'n cael ei bwyta yn ystod y tymor pori gymaint ag y bo modd; mae'r ardal bori, ar briddoedd lôm clai, yn cael ei rhannu'n badogau.

Meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt fel ffermwr arddangos:

- Defnyddio technoleg i fesur a monitro'r porfeydd: Mae Erw Fawr yn tyfu glaswellt yn dda ond mae angen i ni wneud gwell defnydd ar y borfa honno er mwyn lleihau faint o borthiant wedi'i brynu sy'n cael ei gynnwys yn neiet y buchod
- Gwella cyfnod pontio'r buchod sych: mae llawer yn gallu mynd o'i le yn ystod y cyfnod pontio ac felly fe hoffen ni ystyried rôl maeth a rheolaeth ar yr adeg bwysig yma yn y cylch cynhyrchu, er mwyn gwella'r perfformiad ar ôl lloia a gwella iechyd y lloi



RUSSELL MORGAN

Graig Olway, Llangyfiw

Mae Graig Olway yn ddaliad 240 hectar (ha) sy'n gweithredu fel menter llaeth, cig eidion a thir â.

Mae'r busnes yn cael ei redeg gan Russell Morgan a'i fam a'i fodryb, Glenys Morgan a Jane Morgan.

Mae'r fferm yn cynhyrchu llaeth ers i dad-cu a mam-gu Russell brynu'r daliad ym 1946.

Yn 2013, cafodd tri robot godro eu gosod ac ers hynny mae'r fuches dan do o 170 o wartheg Holstein sy'n uchel eu cynnyrch wedi'i chynnal ar y system. Mae'r buchod yn ymweld â'r robot 3.2 gwaith mewn cyfnod o 24 awr ar gyfartaledd.

Mae'r fuches yn cynhyrchu 11,000 litr o laeth y flwyddyn ar gyfartaledd gyda 3.95% o fraster menyn a 3.25% o brotein. Mae'r llaeth yn cael ei werthu i Müller.

Mae'r buchod yn cael diet o silwair glaswellt ac indrawn a hynny ar ffurf Dogn Cymysg Cyflawn (TMR).

Mae'r heffrod yn lloia pan fyddan nhw'n ddwy oed, a hynny ar system loia drwy'r flwyddyn. Y mynegai lloia yw 405 o ddiwrnodau ar gyfartaledd.

Mae yna 130 o wartheg llaeth i lenwi bylchau ac mae'r epil eraill i gyd yn cael eu pesgi a'u gwerthu i Kepak.

Mae'r fuches sugno cig eidion yn lloia yn y gwanwyn ac mae'n cynnwys croesiadau cyntaf ac ail groesiadau Belgian Blue a Charolais o'r fuches laeth.

Mae 101ha o wenith a barlys yn cael eu tyfu ar y fferm.

Meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt fel ffermwr arddangos:

- Iechyd y traed mewn system odro robotig: Mae gennyn ni ddiddordeb mewn dulliau amgen yn lle trochi'r traed; mewn system odro gonfensiynol mae'n hawdd trochi'r traed wrth i'r gwartheg ddod allan ond nid yw hyn yn bosibl mewn system robot
- Ystyried y ffyrdd gorau a mwyaf priodol i wella'r seilwaith, gan gynnwys storio slyri a silwair
- Ymchwilio i ffyrdd i leihau gwrthfotigau, yn arbennig yn y stoc ifanc



IWAN FRANCIS

Nantglas, Caerfyrddin

Mae Safle Arddangos Nantglas yn ddaliad 55 hectar (ha) sy'n gweithredu fel fferm laeth, dan ofal Iwan Francis. Mae'n rhentu 75ha ychwanegol o dir oddi ar y fferm.

Mae'r ardal bori yn 58ha ac mae tri chnwd 40ha o silwair yn cael eu torri bob blwyddyn; mae 300 o fynau silwair mawr hefyd yn cael eu cynhyrchu.

Mae'r fuches yn lloia mewn dau floc; mae 100 o wartheg yn lloia yn y gwanwyn a 100 yn lloia yn yr hydref.

Mae'r fferm hefyd yn cadw 120 o heffrod.

Mae'r gwartheg yn cynhyrchu 6,500 litr o laeth yn flynyddol ar gyfartaledd, gyda 4.5% o fraster menyn a 3.5% protein.

Mae'r llaeth yn cael ei gyflenwi i hufenfa Dairy Partners yng Nghastell Newydd Emlyn.

Meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt fel ffermwr arddangos:

- Ffrwythlondeb y fuches: Gall ffrwythlondeb fod yn heriol gan ein bod yn lloia mewn dau floc. Fy nod yw lleihau ein cyfnod lloia o 12 wythnos i 9 wythnos
- Rheoli pridd a glaswelltir: Mae prynu porthiant i mewn yn ychwanegu at ein costau cynhyrchu, felly os oes modd i ni leihau ein dibyniaeth ar y bwydydd yma drwy wella perfformiad ein glaswelltir, bydd hynny'n gwneud ein busnes yn fwy cynaliadwy
- Gwaredu clefyd Johne o'r fuches: Mae iechyd y fuches yn flaenoriaeth ac mae clefyd Johne yn un yr ydym yn awyddus iawn i'w reoli
- Ystyried gwerth tyfu porfeydd cymysg: Rydym ni'n awyddus i ddysgu mwy am sut y gallwn gynnwys porfeydd cymysg i'n system, i ddarparu amrywiaeth yn niet y gwartheg



WILLIAM HANNAH

Mountjoy, Trefgarn

Mae Mountjoy yn fferm tir glas 186-hectar (ha) sydd â buches o 360 o wartheg godro Friesian Seland Newydd a 200 o loeau.

Mae'r daliad yn cael ei ffermio gan ffermwr ail genhedlaeth, William Hannah, ei wraig, Heather, a'i rieni, Tom a Mary. Mae brawd Heather, Mike Stott, yn gweithio yn y busnes mewn swydd llawn amser ac mae godrwr achlysurol yn cael eu cyflogi hefyd. Prynodd y teulu Mountjoy ym 1985, ac ymunodd William â'i rieni ar y fferm yn 2008.

Mae'r fuches yn cael ei chadw dan do am 8-10 wythnos ac mae'n lloia mewn bloc 12 wythnos o 20 Mawrth ymlaen. Yn 2019, llwyddodd 80% i fwrw llo yn ystod y pum wythnos gyntaf. Mae'r buchod i gyd yn lloia ar laswellt ar seibiau pori 24 awr. Mae'r buchod yn cael eu godro mewn parlwr dwbl 30/30.

Y cynnyrch llaeth blyneddol ar gyfartaledd yw 6,000 litr y fuchch gyda 4.4% o fraster menyn a 3.7% o brotein, ac mae 3,700 litr yn cael ei gynhyrchu o borthiant. Defnyddir 1.2 tonnelli o ddwysfwd y fuchch y flwyddyn.

Mae'r llo ar y glaswellt o dair wythnos oed, ac mae llaeth yn cael ei ddarparu drwy ddefnyddio cyfarpar ar olwynion.

Gwneir tri thoriad o silwair; mae'r trydydd toriad yn gwnw llai i ddarparu porthiant ar gyfer y stoc ifanc. Mae 7-8% o'r fferm yn cael ei ail-hau bob blwyddyn â dril, gan hau amrywogaethau hirdymor Aber a meillion.

Meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt fel ffermwr arddangos:

- Defnyddio technoleg loeren i fesur y borfa: Gallai'r dechnoleg yma helpu i'w gwneud yn haws i reoli tir glas yn fanwl gywir, a byddai'n sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud!
- Profion genomig ar heffrod cyfnewid: Gallai profion genomig ein helpu i ddewis yr anifeiliaid cyfnewid gorau ar gyfer y fuches i ateb gofynion ein system. Rydym ni'n teimlo bod enillion pendant i'w cael yn hyn o beth, drwy ddileu geneteg wael fel mai dim ond yr anifeiliaid gorau sy'n cael eu cadw yn y fuches
- Ymchwilio i fanteision porfeydd llysieuol mewn system laeth. Rydym ni'n awyddus i leihau ein dibyniaeth ar nitrogen artiffisial gan barhau i dyfu'r un faint o laswellt



I 'bleee' wyt ti wedi mynd? Treialu defnyddio technoleg olrhain mewn systemau pori eang

Mae 'ffermio gliniadur' yn rhywbeth y mae rhai ohonom yn gwneud hwyl am ei ben; y syniad o ffermwyr y dyfodol yn gallu gwneud popeth oddi ar fwrdd y gegin... fel rhith-ffermio yn y byd go iawn. Efallai bod hynny yn bell o ddigwydd, ond, dros y blynyddoedd diwethaf, dangosodd Rhwydwaith Ardal Eang Ystod Bell (LoRaWAN) sut y gall y cysyniad yma fod yn nes nag yr ydym yn meddwl.

Mae LoRaWAN yn rhan o'r Rhyngwrdd o Bethau (IoT), sydd yn derm sy'n cwmpasu popeth o ffôn i dostiwr sydd wedi eu cysylltu â rhwydwaith o ryw fath. Gall unrhyw un brynu porth i'r LoRaWAN (mast rhwydwaith) a'i osod ar dŷ, sied neu ar ben bryn. Ar yr amod bod gan y porth gyflenwad trydan a rhyw fath o ryngwrdd (Wifi, ethernet neu ffôn symudol), bydd yn rhyddhau amledd radio isel am radiws o tua chwe milltir o olwg clir.

Dychmygwch petai giât eich fferm yn anfon neges atoch pan fydd yn cael ei hagor yng nghanol y nos. Dychmygwch petaech yn cael hysbysiad ar eich ffôn pan fydd buwch yn gofyn tarw ac yn barod i gael tarw potel. Meddyliwch am yr holl 'bethau' ar eich fferm allai gael rhyw fath o ddyfais/synhwyrdd arnynt a allai anfon gwybodaeth atoch trwy fast LoRaWAN. Gan mai ar gyfer trosglwyddo negeseuon synhwyrddion syml fel tymheredd, symudiad, lleoliad, uchder ac ati y dyluniwyd LoRaWAN, a dim ffeiliau mwy fel delweddau, gall y dyfeisiadau oroesi am flynyddoedd ar fatris arferol sy'n golygu ei fod ar y blaen i 4G a 5G.

Mae nifer o byrth LoRaWAN yma ac acw trwy Gymru yn barod. Mae mesur a monitro yn fanwl gywir yn fyw yn dod yn bwysicach fyth ar gyfer ffermio manwl gywir, a gall y dechnoleg yma helpu ffermwyr i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth gan ddefnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael.

Mae grŵp o chwe ffermwr o bob rhan o Gymru wedi dechrau ar eu prosiect EIP

Cymru sy'n ymchwilio i sut y gall y dechnoleg yma eu helpu i reoli eu da byw ar dir eang.

Gyda'r nod o ffermio yn ddoethach yn hytrach na chaletach, mae'r grŵp yn ymchwilio i weld sut y gall defnyddio technoleg olrhain helpu i atal problemau fel anawsterau wrth hel stoc, rheoli pori a dwyn ar dir eang. Mae pedwar o'r ffermwyr yn gynhyrchwyr defaid ar Fannau Brycheiniog, ac yn cyd-bori ar y mynydd yn ystod yr haf. Mae un ffermwr yn pori tir arfordirol ger Margam, Port Talbot gyda gwartheg, ac mae'r ffermwr olaf yn gyfrifol am bori cadwraethol ar dir yng Ngogledd Cymru.



Lleoliad y chwe fferm sy'n cymryd rhan ym mhrosiect Tracio GPS EIP Cymru



Y dechnoleg

Bydd tagiau clust a synhwyrddion yn cael eu treialu yn y prosiect. Rhaglenir y synhwyrddion i anfon data GPS bob 10 munud ac ar ôl cael ei roi ar yr anifail, bydd y batri yn para am rhwng 1 a 2 flynedd.

Y data

Bydd y ffermwyr yn gallu gweld y wybodaeth ganlynol trwy ap ar eu ffonau clyfar:

- Lleoliad GPS (Lledred, Hydred)
- Fflagiau gweithgaredd - gan roi rhybudd os bydd yr anifail yn symud mewn modd arbennig (wrth gael eu dwyn o bosibl)
- Dangosyddion ymddygiad (pori, pori ysgafn, gorwedd)
- Rhyngweithio cymdeithasol - cyswllt gydag anifeiliaid eraill, a all fod yn ddefnyddiol wrth ystyried rhyngweithio rhwng rhiant a'i epil, asesu gallu mamol anifail benyw

Cynllun y prosiect

- Bydd y prosiect yn cael ei gynnal dros ddau dymor pori
- Bydd pedair diadell o ddefaid a dwy fuches o wartheg yn cael eu cynnwys yn y prosiect
- Bydd sampl o bob diadell/buches yn gwisgo'r coleri GPS

Nod y prosiect hwn yw ysbrydoli eraill i ymchwilio i fanteision defnyddio technolegau gwahanol i ddatblygu a gwella eu busnesau neu i wneud rhai tasgau yn haws. Roedd y gallu i wybod ble y mae eich anifeiliaid yn pori a pha mor aml, os yw giatiau wedi eu gadael ar agor, ac os yw stoc yn cael eu dwyn, yn allu nad oedd ar gael yn y gorffennol. Yn sicr mae hwn yn gyfnod cyffrous i dechnoleg newydd ac mae'n agor drysau i gyfleoedd blaengar diddiwedd yn y sector amaethyddol a choedwigaeth.





Ffermwr yn darganfod bod meithrin cloron y moch yn addas iawn i hinsawdd Cymru

Mae amheuaeth a fyddai meithrin cloron y moch yn cynnig cyfleoedd i amaethyddiaeth Cymru wedi cael ei chwalu yn rhannol gan ffermwr o Sir Faesyfed, diolch i astudiaeth Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio.

Cryfhaodd diddordeb John Goodwin mewn meithrin cloron y moch pan fu mewn seminar ar y pwnc fel aelod o grŵp Agrisgôp Cyswllt Ffermio.

Yn dilyn hyn, roedd Mr Goodwin am fynd â'i ymchwil ymhellach a dyfarnwyd cyllid iddo gan raglen Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio i gymryd rhan mewn cwrs meithrin cloron y moch yn Ffrainc.

“Roedd yn ymddangos yn gyfle perffaith i gael gwybod a fyddai’n fenter hyfyw yn Sir Faesyfed, ac i ateb y cwestiwn, ai damcaniaeth neu gyfle yw hyn?” meddai Mr Goodwin, sy’n ffermio yn Llanandras.

O ran hinsawdd, mae meithrin cloron y moch yn mynd yn llai ffafriol yn ne Ffrainc wrth i diriogaeth y ffwng ymestyn tua’r gogledd oherwydd diffeithdiro a newid hinsawdd.

Darganfu Mr Goodwin bod rhai rhywogaethau yn addas iawn i hinsawdd Cymru. Ar ben hynny, mae’r diwydiant yn broffidiol iawn pan fydd yn hyfyw.

“Y ffigyrau gorau a welais i oedd €240,000/hectar/y flwyddyn i’r gogledd ddwyrain o Baris mewn amodau tebyg i Dde’r Deyrnas Unedig,” meddai.

Yn hollol groes i wybodaeth a dderbynnir yn y Deyrnas Unedig, mae meithrin cloron y moch yn benodol iawn i safle, dywedodd.

Rhaid cael calchfaen calchog a phridd tywodlyd. “Nid yw’n fater o ddim ond chwalu calch fel y cefais fy arwain i feddwl gan gwmnïau yn y Deyrnas Unedig,” dywedodd Mr Goodwin.

“Mae’n ymddangos bod rhaid cael cyfran sylweddol o dywod yn y pridd.”

Ar safleoedd addas, gall meithrin cloron y moch gyd-fynd â chynlluniau sefydlu Coetiroedd Glastir ac, yn y dyfodol, atafaelu carbon a chynlluniau nwyddau cyhoeddus, cred Mr Goodwin.

Caeau gwyrdd sydd orau - nid coetir wedi ei sefydlu, ychwanegodd.

Daeth i’r casgliad na ellir gwarantu llwyddiant, ond i wella’r cyfleoedd hynny, mae angen dull gofalus, gwyddonol ac olynol, gan gychwyn trwy ddadansoddi’r pridd.

Bydd hyn, ynghyd â dyfrhau, rheoli chwyn, tocio, microsgopeg, ac ail-frechu yn rhannau hanfodol o’r broses.

“Er mwyn cynyddu’r gobaith o gael llwyddiant, mae’n angenrheidiol gofalu bod pethau o’ch plaid. Mwyaf yn y byd y byddwch chi’n ei roi i reoli, mwyaf yn y byd fydd y cynnyrch a gewch chi,” dywedodd Mr Goodwin.

“Mae perllannau cynhyrchiol yn Ffrainc yn cael eu rheoli yn ddwys; nid yw’n fater o blannu perllannau a mynd yn ôl mewn wyth mlynedd.”

Ar ôl plannu, mae rheolaeth ar truffières yn hanfodol i’w lwyddiant yn y dyfodol.

Mae rheoli chwyn yn ymdrech fawr gan y gall unrhyw gystadleuaeth amharu ar gysylltiadau mycorhisol bregus. Gwneir hyn amlaf trwy hau yn fas ond rhaid ei wneud yn gyson, yn fisol efallai.

Hefyd, mae deunydd yn cael ei daenu o gwmpas boncyffion y coed.

Ar ôl i’r cloron y moch ddechrau ffynnu, maent yn rheoli’r chwyn eu hunain, ac mae ardaloedd llosgedig neu “brûlées” yn ymddangos o gwmpas y coed.

Mae tocio coed yn waith arbenigol -

rhaid cael cydbwysedd gofalus rhwng y gorchudd o goed a’r haul sy’n treiddio trwyddo. Defnyddir tocio ddwywaith y flwyddyn hefyd i achosi straen i’r goeden, i’w gwneud yn fwy dibynnol ar y ffwng sy’n gysylltiedig â’i gwraidd.

Rhaid dyfrio truffières, er ei fod yn llai hanfodol gyda rhai mathau.

“Ar ddiwrnod sych o haf mae angen gwneud, neu gall y prosiect fethu yn llwyr. Mae’n bosibl iawn gor-ddyfrio hefyd, fydd yn cael yr un effaith,” dywedodd Mr Goodwin.

Yn draddodiadol, defnyddid moch benyw i chwilio am y cloron, ond erbyn hyn defnyddir cŵn yn amlach.

“Nid oes angen unrhyw hyfforddiant ar hychod gan eu bod yn cael eu denu yn naturiol at fferonomau mewn cloron y moch, ond mae angen hyfforddi cŵn,” dywedodd Mr Goodwin.

“Gall un dyn gyda phâr o gŵn Labrador gynaeafu 15ha o gloron y moch fel gwaith amser llawn yn ystod y tymor cynhaeaf sy’n ddau i dri mis.”



Datblygu eich sgiliau, datblygu eich busnes, cynllunio ar gyfer y dyfodol...

Cyfnod ymgeisio ar gyfer sgiliau ar agor NAWR!

Mae cyfleoedd newydd ar gyfer hyfforddiant wedi cael eu hychwanegu at y rhestr gynhwysfawr o gyrsiau sgiliau busnes, technegol ac ymarferol a chysiau hyfforddiant sydd ar gael drwy Cyswllt Ffermio, felly mae'n bryd i chi ystyried eich opsiynau!

Mae'r trydydd cyfnod ymgeisio ar gyfer rhaglen sgiliau a hyfforddiant Cyswllt Ffermio ar agor nawr hyd 17:00 ddydd Gwener 1 Tachwedd 2019, a dyma'r cyfnod ymgeisio olaf am eleni.



Dywed Cyfarwyddwr Lantra Cymru, Kevin Thomas, ei bod yn hanfodol i bawb sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol er mwyn rhedeg eu busnesau mewn modd effeithlon wrth i'r diwydiant baratoi ar gyfer amodau masnach ansicr at y dyfodol.

"Rwy'n annog pob busnes sydd wedi cofrestru i ystyried y cyfleoedd sydd ar gael yn ystod y cyfnod ymgeisio olaf ar gyfer 2019.

"Rydym ni'n awyddus i annog pob aelod cymwys o'ch teulu nad ydynt wedi cofrestru gyda'r rhaglen eisoes i gofrestru nawr ac i fanteisio ar yr ystod eang o gyrsiau sydd ar gael.

"Mae cymhorthdal o hyd at 80% ar gael tuag at gyrsiau hyfforddiant i fusnesau

cofrestredig, ac ar yr amod fod eich busnes wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio, gallwch chi, aelodau'r teulu a gweithwyr PAYE ddewis unrhyw hyfforddiant sy'n angenrheidiol.

"Mae Cyswllt Ffermio bellach yn cynnig dros 80 o gyrsiau achrededig, gan amrywio o iechyd anifeiliaid i bynciau'n ymwneud â phridd a rheoli'r borfa, ac o feysydd busnes, cyllid a phrosesu bwyd i iechyd a diogelwch a defnyddio technoleg drôn.

"Trwy barhau i ymateb i ofynion y farchnad, mae'r ystod o hyfforddiant a ddarperir yn datblygu'n barhaus, a chredwn fod gennym ni ryw beth i'w gynnig i bob unigolyn ym mhob busnes yng Nghymru," meddai Mr Thomas.

Bydd angen i bob ymgeisydd gwblhau Cynllun Datblygu Personol (PDP) Cyswllt Ffermio ar lein.

- Mae cyrsiau **gwella busnes** yn cael eu hariannu hyd at 80%
- Mae cyrsiau **sgiliau technegol** yn cael eu hariannu hyd at 80%
- Mae cyrsiau **defnyddio peiriannau/offer** yn cael eu hariannu hyd at 40%
- Mae opsiynau eraill, gan gynnwys cyrsiau **e-ddysgu** ar lein, yn cael eu hariannu'n llawn

Am cymorth gyda'ch cais, cysylltwch â'r Darparwr Hyfforddiant o'ch dewis, Swyddog Datblygu Lleol neu ein Canolfan Wasanaeth ar 08456 000 813 yn gynnwys yn ystod cyfnod ymgeisio sgiliau.



Rheoli eich busnes yn fwy effeithlon, lleihau eich gwaith papur, arbed amser ac arian

Gall gwrs hyfforddi cyfrifiadurol Cyswllt Ffermio, sydd wedi ei ariannu yn llawn, eich helpu i gyflawni hyn!

Mae Cyswllt Ffermio yn benderfynol o sicrhau bod busnesau ffermio a choedwigaeth cymwys yn derbyn lefel hyfforddiant i'w cefnogi a'u cynorthwyo i ddefnyddio technoleg gyfrifiadurol gyda hyder a'r lefel sgil sydd angen i reoli eu busnesau yn fwy effeithlon.

Mae Lantra Cymru, sy'n gyfrifol am elfen Rhaglen Dysgu a Datblygu Gydol Oes Cyswllt Ffermio, wedi creu rhaglen gefnogi tair haen sy'n addas ar gyfer pob gallu, o bobl sydd megis dechrau sy'n amharod i ddefnyddio cyfrifiadurol y fferm, i rai sydd â sgiliau sylfaenol yn barod ond o bosib, nad ydynt yn ymwybodol o ambell declyn a meddalwedd diweddar sydd ar gael i'r diwydiant amaethyddol.

Dywed Kevin Thomas, cyfarwyddwr Lantra Cymru, bod sectorau yn seiliedig ar gefn gwlad yn paratoi ar gyfer cyfleoedd a heriau'r dyfodol, ac o fewn yr economi ansicr hwn, mae'n angenrheidiol bod ffermwyr a choedwigwyr yn gwneud y mwyaf o'r holl gefnogaeth sydd ar gael.

"Mae llawer o ffermwyr a choedwigwyr, gan bwysleisio'r genhedlaeth ifanc yn fan hyn, yn defnyddio TG yn ddyddiol, a dyma pam ein bod yn darparu gwahanol haenau o gefnogaeth.

"Cyn belled â'ch bod wedi cofrestru â Cyswllt Ffermio, gallwch chi ac eraill o fewn eich busnes waeth beth fo'ch oedran neu eich gallu cyfrifiadurol, fod yn gymwys i ymgeisio am hyfforddiant all eich cynorthwyo i reoli eich busnes yn fwy effeithlon, lleihau gwaith papur a sicrhau eich bod yn defnyddio'r teclynau TG a'r meddalwedd mwyaf diweddar sydd ar gael.

Gall unigolion sy'n dechrau o'r dechrau, fynychu cwrs hyfforddiant chwe wythnos, sy'n cael ei gyflwyno fesul dwy awr yr wythnos, a'i ddarparu mewn lleoliadau dros Gymru gan diwtoriaid colegau amaethyddol lleol.

Gall y rhai sydd gan sgiliau TG sylfaenol, ymgeisio am ddau ymweliad i'r cartref, dwy awr yr un, gan diwtoriaid TG arbenigol, all deilwra eu hyfforddiant i ofynion yr unigolyn er mwyn cynorthwyo i ddatrys unrhyw faterion sy'n ymwneud â TG.

Gall ddefnyddwyr TG sydd â mwy o sgiliau, fynychu gweithdai ble gallant ddysgu sut i integreiddio'r TG diweddaraf i'w busnesau eu hunain.

Er mwyn cofrestru eich diddordeb ar gyfer hyfforddiant TG a derbyn galwad ffôn gan aelod o'n tîm, cysylltwch â'r Ganolfan Wasanaeth ar 08456 000 813 neu ewch i wefan Cyswllt Ffermio.

Gwella cynhyrchiant meillion coch

Pam tyfu meillion coch?

Mae meillion coch yn godlys porthiant cynyddol bwysig ar gyfer systemau glaswelltir cynaliadwy. Mae'n gallu sefydlogi rhwng **150 a 250kg** o nitrogen fesul hectar bob blwyddyn, ac os cânt eu rheoli'n briodol, gall porfeydd cymysg o feillion coch a rhygwellt lluosflwydd gynhyrchu rhwng 15 ac 20t o ddeunydd sych fesul hectar bob blwyddyn. Mae lefelau protein meillion coch yn uchel, ac mae'r ganran nodweddiadol o brotein amrwd yn **18%**.

Fodd bynnag, weithiau bydd yn anodd ei dyfu oherwydd diffyg hirbarhad y borfa, yn enwedig fel rhan o system bori. Mae hyn oherwydd y ffaith y bydd yn tyfu o goronau sy'n agored i niwed yn sgîl gorbori, a gall gael ei niweidio gan farrug caled hefyd.

Mae meillion coch hefyd yn dueddol o ddal clefydau yn cynnwys pydredd y goron (Sclerotinia) a nematodau coesynnau (llyngyr llysiau).

Beth yw Sclerotinia?

Mae *Sclerotinia trifoliorum* yn bathogen ffwngaid sy'n bodoli mewn pridd. Yn ystod twf y gwanwyn, gall ei ddatblygiad cyflym effeithio'n sylweddol ar gynhyrchiant y borfa.

Mae Sclerotinia yn anodd iawn ei ganfod yn y gwanwyn oherwydd mae ei symptomau cychwynnol yn edrych yn debyg i ddifrod aferol y gaeaf. Ond bydd unrhyw blanhigyn sy'n edrych yn llai ei faint ac yn frown iawn yn destun pryder. Gallai matn bychan yn cynnwys ceinciau tebyg i wallt (gweler y llun) sy'n edrych yn debyg i we pry cop trwchus fod yn fyseliwm ffwngaid.

Mae sclerotinia yn gallu cyrraedd y borfa trwy ddau ddull. Un o'r rhain yw'r myselim yn symud trwy'r pridd o'r naill gae i'r llall, yn cael ei gludo gan anifail neu gan beiriannau. Yr ail ddull yw'r sborau sy'n cael eu cynhyrchu yn ystod cam corff hadol cylch oes y ffwng. Caiff y sborau eu chwalu gan y gwynt ac mae heintiad gan sborau yn fwy cyffredin ar ddiwedd yr haf ac yn ystod misoedd yr hydref.



Beth yw nematodau coesynnau?

Mae nematodau coesynnau yn bodoli yn y pridd. Mae sawl math, ac nid yw'r mwyafrif yn achosi unrhyw niwed i blanhigion. *Ditylenchus dipsaci* yw enw'r math parasitig sy'n niweidio meillion coch. Ceir niferoedd bychan ohono yn y pridd. Bydd heintiad yn digwydd pan newidir y boblogaeth naturiol. Mae nematodau coesynnau yn gwneud i feillion coch ddirdroi, crychu a chwyddo. Bydd hyn yn arafu twf planhigion. Mae angen nifer o genedlaethau o nematodau cyn gellir gweld yr effaith yn rhwydd. Bydd yr heintiad yn digwydd yn yr hydref a'r gwanwyn fel arfer, ond gall ddigwydd unrhyw bryd.

Caiff heintiad nematodau ei ledaenu gan symudiadau pridd trwy gyfrwng:

- Anifeiliaid a phobl
- Peiriannau
- Cysiau dŵr

Mae'r ffotograff yn dangos planhigyn wedi'i heintio. Y rhan chwyddedig coch yw ble mae'r nematodau wedi heintio'r planhigyn.



Rheoli'r clefydau hyn

Yn achos sclerotinia, os caiff yr heintiad ei ddarganfod yn gynnar, bydd chwistrellu â ffwngleiddiad yn bosiblwydd. Ond nid oes unrhyw gynnyrch ar gael sy'n hollol effeithiol a bydd yr heintiad yn parhau i ledaenu ac yn achosi rhagor o niwed. Mae'r un broblem yn bodoli yn achos nematodau coesynnau oherwydd nid oes unrhyw gemegau hollol effeithol ar gael.

Yn achos y ddau glefyd, yr unig ddewis ar hyn o bryd yw aredig y cae a pheidio cynnwys rhywogaethau meillion yn y cylchdro cynyddu am hyd at 10 mlynedd. Gwyliadwriaeth a mesurau bioddiogelwch yw'r dulliau gorau o leihau'r perygl o ragor o heintiad. Osgowch gludo pridd o'r naill gae i'r llall a chliriwch unrhyw blanhigion afiach cyn gynted ag y gwelir hwy.

Y dyfodol

Meillion coch sy'n gallu gwrthsefyll y pathogenau hyn yn dda yw'r ateb gorau. Mae prosiect yn IBERS, Prifysgol Aberystwyth, a ariennir gan ERDF drwy SMARTExpertise, yn ceisio cyflawni hyn trwy fridio mathau sy'n gallu gwrthsefyll y pathogenau hyn yn well. Mae ymchwilwyr yn IBERS yn cydweithio â Germinal, Hybu Cig Cymru a Cyswllt Ffermio i ddatblygu mathau sy'n fwy addas i'r amgylchedd a systemau amaethu modern i alluogi ffermwyr i elwa'n llawn o'r cnwd gwerthfawr hwn.



Lawnsio podlediad newydd i gadw eich “Clust i'r Ddaear”

Mae “Clust i'r Ddaear” yn bodlediad newydd sbon, y cyntaf o'i math i fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg, fydd yn rhannu gwybodaeth dechnegol, cyngor, cefnogaeth ac ysbrydoliaeth i'r gymuned amaeth yng Nghymru.

Mae podlediadau yn parhau i gynyddu mewn poblogrwydd gydag ymchwydd mewn gwrandawyr dros y blyneddau diwethaf.

“Un o'r rhesymau pam eu bod mor boblogaidd yw am eu bod yn fformat sy'n gweddu yn dda i'n bywydau prysur. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r sector amaeth gan fod modd yn aml i wrando wrth eich gwaith”, meddai Eirwen Williams, cyfarwyddwr rhaglenni gwledig gyda Menter a Busnes. Bydd y podlediad ar gael i wrando arni drwy ddolen ar wefan Cyswllt Ffermio o Ddydd Llun y 23 Fedi. Byddant yn benodau byr, 20 munud o hyd ac yn cynnwys cyfweiliadau gyda ffermwyr ac arbenigwyr y diwydiant ar amrywiaeth o themâu amserol.

Bydd pennod gyntaf ‘Clust i'r Ddaear’ yn canolbwyntio ar sut gallwn wella ein rheolaeth a defnydd o borfa. Un o'n prif gryfderau ni fel ffermwyr Cymru yw'r hinsawdd ardderchog sy'n bodoli yma i dyfu glaswellt o safon. Ond ydym ni'n manteisio digon ar y cryfder yma? Dyma beth fydd Jim Ellis ac Aled Jones yn eu darganfod wrth siarad gydag un o brif ymgynghorwyr y wlad ar reoli porfa a dau ffermwr sydd wedi newid eu systemau i dyfu mwy o borfa ar dir uchel.

Bydd pennod newydd yn cael ei chyhoeddi bob pythefnos a bydd y themâu dros dymor yr Hydref yn cynnwys sgysiau a recordiwyd yn y digwyddiad Arallgyfeirio ac Arloesi Cymru, y digwyddiad Ffermio'r Amgylchedd a bydd cyfle i ddod i wybod mwy am ein ffermwyr arddangos newydd. Bydd y penodau i gyd yn aros ar-lein er mwyn i chi wrando eto yn eich amser eich hun os dymunwch.



Amserlen Digwyddiadau

Gweithdy Gwella Ansawdd Dŵr	
23/09/19 16:00 - 18:00	Tyn y Fach, Llanfihangel y Pennant, Tywyn LL36 9TU
24/09/19 11:00 - 14:00	Abersannan, Dryslwyn, Caerfyrddin SA32 8SJ
24/09/19 16:00 - 18:00	Fferm Ackhill, Llanandras, Powys LD8 2ED
25/09/19 11:00 - 14:00	Fferm Kilford, Dinbych, Sir Ddinbych LL16 4ER
Canolfan Wasanaeth 08456 000 813	

Clefydau rhewfryn mewn defaid: adnabod gwir iechyd eich diadell	
24/09/19 14:00 - 16:00	College Farm, Trefecca, Aberhonddu, Powys LD3 0PW
Elan Davies 07985 379 890 elan.davies@menterabusnes.co.uk	

Rheoli Magu Lloi	
24/09/19 11:00 - 13:00	Llysun, Llanerfyl, Powys SY21 0EL
Canolfan Wasanaeth 08456 000 813	

Gweithdy Deall Clefyd Johne		
25/09/19 19:30 - 22:30	Farm First Veterinary Services Ltd, Y Fenni NP7 9AT	Farm First Vets 01873 840 167
26/09/19 19:00 - 22:00	Clwb Rygbi Cobra, Meifod SY22 6DA	Camlas Farm Vets 01938 553 124
01/10/2019 19:30 - 22:30	Neuadd Bentref Llanarth, Llanarth, Brynbuga NP15 2AU	Farm First Vets 01873 840 167
01/10/2019 18:30 - 21:30	The Whitehall Inn, Llanymddyfri SA20 0PU	Prostock 01267 233 266
10/10/2019 18:30 - 21:30	Clwb Rygbi Llambled, Llambled SA48 7JA	

Rheoli Parasitiaid Defaid 2 - Clafr, Llau a Llyngyr yr Iau		
02/10/19 11:00 - 14:00	Milfeddygon Fenton. Hwlfordd SA61 1BN	Fenton Vets 01437 762 511
09/10/19 19:00 - 22:00	Clwb Rygbi Nelson, Nelson CF46 6EA	South Wales Farm Vets 01443 223 751
17/10/19 19:00 - 22:00	Clwb Rygbi Heol Y Cyw, Pen-y-bont ar Ogwr CF35 6HR	South Wales Farm Vets 01443 223 751
23/10/19 11:00 - 14:00	Milfeddygon Vets, Llangan, Vale of Glamorgan, CF35 5DR	Tyndale Vets 01453 511 311
23/10/19 19:00 - 22:00	Neuadd Bentref Mainstone, Shropshire SY9 5LQ	Bishops Castle Vets 01588 638 356

Digwyddiadau Cynllun Datblygu Personol	
25/09/19 13:00 - 20:00	Tafarn y Rhos, Rhostrehwfa, Llangefni, Ynys Môn LL77 7YU
02/10/19 13:00 - 20:00	Glasdir, Plas yn Dre, Llanrwst, Conwy LL26 0DF
04/10/19 13:00 - 20:00	Gwesty Plas Hyfryd, Moorfield Road, Arberth, Sir Benfro SA67 7AB
02/10/19 10:00 - 15:00	Marchnad Da Byw Sir Fynwy, Rhaglan, Sir Fynwy NP15 2BH
01/10/19 13:00 - 20:00	Clwb Rygbi Castell Newydd Emlyn, Dol Wiber, Adpar, Castell Newydd Emlyn, Sir Gâr SA38 9AZ
Canolfan Wasanaeth 08456 000 813	

ARLOES AC ARALLGYFERIO CYMRU 26/09/2019	
26/09/19 09:30 - 16:30	Neuadd De Morgannwg, Maes Sioe Frenhinol Cymru LD2 3SY
fcevents@menterabusnes.co.uk	

Sut i elwa o Ddisgwyliadau Amgylcheddol Newydd

30/09/19 10:00 - 16:00	Campws Coleg Gelli Aur, Llandeilo, Sir Gâr SA32 8NJ
<i>Abigail James 07399 970 988 abigail.james@menterabusnes.co.uk</i>	

Lleihau Mastitis yn y Fuches Laeth

02/10/19 10.30-13.30	Holt Lodge Hotel, Wrecsam LL13 9SW	Daleside Vets 01978 311 444
01/10/19 11:30 - 14:30	Gwesty'r Llew Du, Llambled SA40 9UE	Steffan Veterinary Services 01570 422 322

Rheoli Dermatitis Digidol mewn Gwartheg

08/10/19 10:30 - 14:30	White Horse, Overton, Wrecsam LL17 0LU
<i>Simon Pitt 07939 177 935 simon.pitt@menterabusnes.co.uk</i>	

Defnyddio pori cylchdro ar gyfer system porfa dros y gaeaf

08/10/19 14:00 - 16:00	Dolygarn, Llanbadarn Fynydd, Llandrindod, Powys LD1 6YL
<i>Elan Davies 07985 379 890 elan.davies@menterabusnes.co.uk</i>	

Gweithdy Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD)

14/10/19 11:00 - 14:00	The Rose Inn, Y Redwig, NP26 3DU	Tyndale Vets 01453 511 311
---------------------------	----------------------------------	----------------------------

Elfennau hybrin mewn defaid

16/10/19 14:00 - 16:00	Clawdd y Mynach, Y Bont-faen, Bro Morgannwg CF71 7QP
<i>Elan Davies 07985 379 890 elan.davies@menterabusnes.co.uk</i>	

Gweithdai Cyfryngau Cymdeithasol

23/10/2019 16:00 - 18:00	Lamphey Court Hotel, Dinbych y Pysgod SA71 5NT
<i>Canolfan Wasanaeth 08456 000 813</i>	

Colledion Ŵyna Rhan 1: Erthyly a Maeth

08/10/19 19.30 - 22.30	Neuadd Bentref Llanarth, Llanarth, Brynbuga NP15 2AU	Farm First Vets 01873 840 167
09/10/19 19:30 - 22:30	Farm First Veterinary Services Ltd, Unit 1, Y Fenni NP7 9AT	

Mae'r holl wybodaeth yn gywir adeg argraffu